**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: MA-P/MD/0108/17

At:
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
Heddluoedd yng Nghymru

Copi at:
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru
Prif Gwnstabliaid Heddluoedd yng Nghymru
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

1 Chwefror 2017

Annwyl Gyfeillion,

**Setliad Terfynol yr Heddlu 2017-18**

Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu o elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Terfynol yr Heddlu 2017-18 ar gyfer heddluoedd Cymru, yn amodol ar ei gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cadarnhaodd y Swyddfa Gartref y bydd yn darparu Grant yr Heddlu a chyllid gwaelodol fel na fydd unrhyw heddlu yng Nghymru'n cael gostyngiad o fwy na 1.4% ar gyfer 2017-18. Cyfraniad Llywodraeth Cymru i'r Setliad ar gyfer Cymru yw £138.7 miliwn.

Yn Atodiad A ceir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer pob heddlu yng Nghymru. Nid yw'r dyraniadau i heddluoedd unigol wedi newid ers y Setliad Dros Dro.

Mae Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2017-18 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr Heddlu a Throseddu) a gyhoeddwyd heddiw wedi'i amserlennu i'w drafod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Chwefror 2017.

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd eu hatgoffa y bydd gofynion o dan Reoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 5) 2016, ac yn benodol y safonau llunio polisi, yn dod i rym ar 30 Mawrth 2017. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb ac effaith penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg, a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y llythyr hwn, byddwch cystal â chysylltu â Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol trwy LGFPSettlement@cymru.gsi.gov.uk.

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

## Atodiad A: Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer Cymru, 2017-18

### Tabl 1: Asesiad o Wariant Safonol (£m)

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 34.155 | 33.863 | 34.488 | 35.151 |
| Gwent | 50.921 | 50.485 | 51.419 | 52.407 |
| Gogledd Cymru | 49.170 | 48.762 | 49.665 | 50.621 |
| De Cymru | 118.731 | 117.702 | 119.882 | 122.186 |
| Cyfanswm | 252.977 | 250.812 | 255.453 | 260.364 |

### Tabl 2: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 13.640 | 12.788 | 12.895 | 12.870 |
| Gwent | 30.674 | 29.696 | 30.107 | 30.583 |
| Gogledd Cymru | 22.328 | 21.308 | 21.578 | 21.907 |
| De Cymru | 73.357 | 71.218 | 72.177 | 73.341 |
| Cyfanswm | 140.000 | 135.010 | 136.757 | 138.700 |

### Tabl 3: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£m)[1]

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 39.367 | 37.511 | 37.117 | 36.443 |
| Gwent | 46.169 | 43.220 | 42.393 | 40.904 |
| Gogledd Cymru | 54.774 | 51.854 | 51.167 | 49.821 |
| De Cymru | 95.843 | 89.338 | 87.463 | 84.066 |
| Cyfanswm | 236.153 | 221.923 | 218.140 | 211.234 |

### Tabl 4: Cyfanswm Cymorth Canolog (£m)

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 53.008 | 50.299 | 50.012 | 49.313 |
| Gwent | 76.843 | 72.917 | 72.501 | 71.487 |
| Gogledd Cymru | 77.102 | 73.162 | 72.745 | 71.728 |
| De Cymru | 169.201 | 160.555 | 159.639 | 157.407 |
| Cyfanswm | 376.153 | 356.933 | 354.897 | 349.934 |

### Tabl 5: Newid mewn Cyfanswm Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol (%)

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | - | - | - | -1.4% |
| Gwent | - | - | - | -1.4% |
| Gogledd Cymru | - | - | - | -1.4% |
| De Cymru | - | - | - | -1.4% |
| Cyfanswm | - | - | - | -1.4% |

Nodiadau:

[1] Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 Adroddiad Grant y Heddlu, sy'n cynnwys y dyraniad o dan 'Prif Fformiwla' a 'Ychwanegu rheol 1' (colofnau a a b) plws swm y'cyllid gwaelodol' y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i sicrhau sydd ar gael